**Rhif: WG37938**

Llywodraeth Cymru
## Dogfen Ymgynghori

# Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Drafft (Argraffiad 3)

Dyddiad cyhoeddi: 7 Mehefin 2019
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 30 Awst 2019

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document Is also available in English,

OGL © Crown Copyright

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ynghylch y newidiadau arfaethedig i'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3).<br><br>Mae'r Llawlyfr yn ddogfen gyfarwyddyd i ymarferwyr sy'n gyfrifol am, neu'n cyfrannu at, y gwaith o baratoi a gweithredu cynllun datblygu. Mae'n ddogfen anstatudol ac nid yw'n gyfystyr â pholisi cenedlaethol. |
| **Sut i ymateb** | Y cau dyddiad ar gyfer yr ymgynghoriad yw 30 Awst 2019. Gallwch ymateb mewn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol.<br><br>**Ar-lein**<br>Llenwch yr holiadur ar-lein ar dudalennau ymgynghori gwefan Llywodraeth Cymru:<br><br>www.llyw.cymru/ymgyngoriadau<br><br>**E-bost**<br>Llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ac anfonwch hi at:<br>planconsultations-a@llyw.cymru<br><br>**Drwy'r post**<br>Llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ac anfonwch hi at y cyfeiriad isod:<br><br>Ymgynghoriad ar y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu<br>Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill.** |
| **Manylion cysylltu** | Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â:<br><br>Mark Newey neu Candice Myers<br>planconsultations-a@llew.cymru<br>Ffôn: 03000 25 3732 /  03000 25 3882 |

## Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth i chi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad yn ymdrin â nhw neu'n cynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

## Beth mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud ag ef?

Mae'r ymgynghoriad hwn ar y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, “Y Llawlyfr", yn rhoi cyfle i wneud sylwadau ar gynnwys canllawiau ar gyfer creu cynlluniau datblygu yng Nghymru. Mae'r Llawlyfr yn ddogfen gyfarwyddyd i ymarferwyr sy'n gyfrifol am, neu'n cyfrannu at, y gwaith o baratoi a gweithredu cynllun datblygu. Mae'n ddogfen anstatudol ac nid yw'n gyfystyr â pholisi cenedlaethol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLl) ei ystyried wrth baratoi cynllun datblygu. Mae'n cynnwys canllawiau ymarferol ar sut i baratoi neu adolygu cynllun datblygu, ar sail tystiolaeth gadarn i sicrhau bod cynlluniau'n effeithiol, yn gyflawnadwy a'u bod yn cyfrannu at greu lleoedd, fel y'i diffinnir yn y polisi cynllunio cenedlaethol.

## Beth yw'r sefyllfa bresennol?

Y Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) (Argraffiad 2, 2015) yw'r canllaw cyfredol ar gynlluniau datblygu ac mae ar gael ar ein gwefan.

Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol ynghylch cynlluniau datblygu wedi'i chynnwys yn y canlynol:

- Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Rhan 6) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 fel y'u diwygiwyd yn 2015.

## Pam rydym yn cynnig newid?

Ers cyflwyno'r system CDLl yn 2005, cafwyd cynnydd aruthrol tuag at gael CDLl ar waith yn y rhan fwyaf o Gymru, gyda 23 o 25 ACLl wedi mabwysiadu CDLl. Rhagwelir y bydd CDLl ymhob rhan o Gymru erbyn 2021, yn unol â'r Cytundebau Cyflawni (DA) a gymeradwywyd. Yn ychwanegol, mae bron i hanner yr holl ACLl wedi cynnal adolygiad llawn o'r CDLl sydd wedi'i fabwysiadu ganddynt ac wedi dechrau ar y broses adolygu.

Ers i'r Llawlyfr CDLl gael ei ddiweddaru yn 2015, bu newidiadau sylweddol i ddeddfwriaeth cynllunio a pholisi cenedlaethol. Dyma’r newidiadau mwyaf arwyddocaol:

- Roedd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn ychwanegu’r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) a Chynlluniau Datblygu Strategol (SDP) at yr hierarchaeth cynlluniau datblygu. Mae'r CDLl yn parhau i fodoli ar lefel leol, ar y cyd â dogfen llawer llai sy'n seiliedig ar ddyraniadau (CDLl Cryno) ar gyfer yr ardaloedd hynny lle mae Cynllun Datblygu Strategol wedi’i fabwysiadu.
- Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ei gwneud hi’n ofynnol i gyrff cyhoeddus, sy'n cynnwys cyrff sy’n gwneud cynlluniau, sicrhau datblygu cynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno ‘nodau llesiant’ a ‘ffyrdd o weithio' y mae'n rhaid i gyrff roi sylw iddynt.
- Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) (Argraffiad 10, Rhagfyr 2018) yn cyflwyno'r egwyddor o Greu Lleoedd, Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy, y Prawf Porth a Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy. Mae'n rhaid i bob cynllun datblygu ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r rhain. Mae'r rhain yn ofynion newydd y mae'n rhaid eu hadlewyrchu yn y cynllun.

O ystyried y newidiadau hyn, dyma'r amser iawn i baratoi Llawlyfr diwygiedig sydd wedi ei ddiweddaru, sy'n addas i'r diben ac sy'n cynnwys canllawiau mwy ymarferol ar baratoi cynllun.

**Beth rydym yn cynnig ei newid?**
Ceir crynodeb isod o'r prif newidiadau i'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) drafft, gyda chwestiynau'n ymwneud â'r prif newidiadau. Wrth ymateb i'r cwestiynau, a allwch chi fod yn ddigon clir ynghylch pa newid rydych yn ei awgrymu a pham, gan gynnwys rhif paragraff, cyfeirnod diagram a rhif tudalen pan fo'n berthnasol.

**Cynnwys y Cynllun**
Mae'r Llawlyfr diwygiedig yn cynnwys canllawiau manylach ar baratoi sail dystiolaeth gadarn, sy'n seiliedig ar wersi a ddysgwyd yn ystod y cylch cyntaf o CDLlau. Ymhob rhan o'r Llawlyfr, mae pwyslais ar ddangos bod cynllun datblygu'n cael ei gyflawni a'i roi ar waith. Er mwyn cefnogi hyn, ceir canllawiau manylach sy'n nodi'r cynnwys a'r dystiolaeth ategol sy'n angenrheidiol i sicrhau y gall cynlluniau gyflawni'r materion allweddol a chael eu dyfarnu'n 'gadarn' (Gweler Tabl 1, tudalen 15). Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys paratoi taflwybr tai (gweler paragraff 4.2.10 PCC) yn ogystal ag atodiad ar seilwaith a chyflawni, i sicrhau bod dealltwriaeth gadarn o sut bydd yr holl safleoedd arfaethedig yn y cynllun yn cael eu cyflawni, erbyn pryd ac unrhyw seilwaith angenrheidiol. Mae canllawiau manwl ar sut i baratoi'r atodiadau hyn wedi'u cynnwys ym Mhennod 5.

| | |
|---|---|
| **C1** | **Mae cynnwys CDLl bellach wedi'i nodi yn y Llawlyfr (gweler Tabl 1). A yw hyn yn ddigon clir ac yn ddigon cynhwysfawr? A oes elfennau a fyddai'n elwa o gael eglurhad pellach, neu sydd wedi eu hepgor? Nodwch yr hyn y dylid ei newid a pham.** |

**Safleoedd Ymgeisiol**
I gefnogi'r gwaith o gyflawni safleoedd yn y cynllun datblygu, ceir arweiniad manwl ar sut i fynd ati i wneud cais am safleoedd ymgeisiol. Mae'r Llawlyfr yn rhoi arweiniad ar sut i gyflawni'r gofyniad polisi a nodir yn PCC (paragraff 4.2.19) y dylai hyfywedd ariannol safleoedd gael ei asesu yn y cam safleoedd ymgeisiol. Mae'r Llawlyfr yn awgrymu y dylai ACLlau wneud un cais cynhwysfawr am safleoedd ymgeisiol yn gynnar yn y broses CDLl, gan ofyn am wybodaeth gan hyrwyddwyr safleoedd ynghylch hyfywedd a chyflawnadwyedd safleoedd. Bydd cael gafael ar wybodaeth o'r fath ymlaen llaw yn atal safleoedd sy'n methu â dangos eu bod yn hyfyw yn ariannol rhag cael eu cynnwys yn y cynllun. Mae adnabod safleoedd yn gynnar hefyd yn hwyluso dull mwy manwl, tryloyw ac ystyrlon o gynnal ymgynghoriad strategol a ffefrir. Bydd hyn yn sicrhau ymgysylltu cymunedol mwy effeithiol â chymunedau a rhanddeiliaid.

| | |
|---|---|
| **C2** | **A yw'r canllawiau ar sut i wneud cais cynhwysfawr am safleoedd ymgeisiol yn gynnar yn y broses CDLl yn glir a digon manwl? Os ydych yn anghytuno, nodwch beth sy'n aneglur neu sydd angen ei ddiwygio a pham.** |

| | |
|---|---|
| **C3** | **A ydych yn cytuno â'r meini prawf ar gyfer yr hyn a olygir wrth safleoedd ymgeisiol 'cyflawnadwy' a 'hyfyw yn ariannol'? (paragraff 3.40). Os ydych yn anghytuno, nodwch yr hyn y dylid ei newid a pham.** |

**Asesiadau Effaith a Chyfleoedd i Integreiddio**

Mae Pennod 4 yn rhoi arweiniad ar y gofyniad statudol i baratoi Arfarniad o Gynaliadwyedd (SA) (gan ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA). Mae'r Llawlyfr yn nodi efallai y bydd Awdurdodau Lleol am ystyried gwerth a chyfle i gynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig (ISA) sy’n cynnwys yr elfennau statudol ac allweddol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y Ddeddf Cydraddoldeb, Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg ac Asesiad o'r Effaith ar Iechyd. Bydd hyn yn galluogi asesiad mwy tryloyw, cyfannol a chyflawn o oblygiadau'r cynllun o ran cynaliadwyedd.

| | |
|---|---|
| **C4** | **A yw'r Llawlyfr yn ddigon clir ynghylch sut i gynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd, HRA neu ISA cyfannol? Os ydych yn anghytuno, nodwch sut rydych chi’n credu y gellid gwella'r canllawiau a pham.** |

**Paratoi CDLl – Materion Craidd**

Mae Pennod 5 yn cynnwys canllawiau newydd manwl ar elfennau craidd cynllun datblygu, yn bennaf sut i wreiddio Creu Lleoedd yn y broses, gan fynegi strategaeth ofodol yn ogystal â sut i feintioli maint cartrefi a chysylltiad â swyddi. Nid bwriad y bennod hon yw cwmpasu pob maes pwnc o fewn y cynllun, ond yn hytrach canolbwyntio ar y materion craidd sy'n ymwneud â llunio cynlluniau ac sy'n hanfodol ar gyfer cyflawni strategaeth y cynllun. Caiff y materion craidd hyn eu crynhoi mewn ‘Rhestr Wirio Cynllun Dadrisgio’, a cheir canllawiau pellach ar bob agwedd yn ddiweddarach yn y bennod.

| | |
|---|---|
| **C5** | **A yw'r ‘Rhestr Wirio Cynllun Dadrisgio’ (tudalen 83) yn grynodeb defnyddiol o faterion craidd llunio cynllun fel y’u crynhoir ym Mhennod 5? Os ydych yn anghytuno, nodwch pa newidiadau y dylid eu gwneud a pham.** |

**Strategaeth Ofodol**

Mae'r Llawlyfr yn rhoi arweiniad ar sut i asesu rôl a swyddogaeth aneddiadau a llunio strategaeth ofodol gynaliadwy, yn unol â'r Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy, y Prawf Porth, Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy a’r dilyniant chwilio a nodir yn PCC. Rhaid i gynlluniau ddangos bod twf wedi'i gyfeirio at yr aneddiadau mwyaf cynaliadwy a mynegi'n glir lefel y twf sy'n briodol ar gyfer pob anheddiad. Mae hyn yn hanfodol er mwyn symud tuag at batrwm datblygu mwy cynaliadwy, gan leihau allyriadau carbon a mynd i'r afael â newid hinsawdd. Mae'r Llawlyfr yn rhoi arweiniad ar sut i ystyried yr elfennau perthnasol a rhoi tystiolaeth i’w cefnogi.

| | |
|---|---|
| **C6** | **A ydych yn cytuno bod y canllawiau ar lunio strategaeth ofodol yn ymdrin yn ddigonol â'r holl elfennau allweddol sydd eu hangen wrth asesu rôl a swyddogaeth lleoedd? Os ydych yn anghytuno, nodwch yr hyn y dylid ei newid a pham.** |

**Tai a Thwf Economaidd**

Mae cynllunio ar gyfer tai a thwf economaidd yn elfen greiddiol o strategaeth unrhyw gynllun, ac mae’n gosod cyfeiriad teithio ar gyfer yr ardal dros gyfnod y cynllun. Mae'r Llawlyfr yn rhoi arweiniad ar sut i nodi gofyniad realistig a chyflawnadwy am dai drwy ystyried yn ofalus ystod o opsiynau. Mae'n diffinio terminoleg, megis darpariaeth tai a’r angen am dai, yn ogystal â ffactorau galw a chyflenwi a chysylltiadau ag Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA). Mae’r asesiad hwn yn nodi lefel a dosbarthiad yr angen am

dai fforddiadwy. Mae'r Llawlyfr hefyd yn esbonio sut i ystyried twf swyddi dros gyfnod y cynllun sy'n gysylltiedig â'r Adolygiad o Dir Cyflogaeth (ELR) gan gynnwys y cysylltiad rhwng cartrefi a swyddi, h.y. ni chânt eu hystyried yn unigol. Bydd y dystiolaeth i gyfiawnhau cydrannau unigol a'u cysylltedd yn hollbwysig wrth ddangos 'cadernid' y cynllun.

| | |
|---|---|
| **C7** | **A yw'r canllawiau ar dai a senarios twf economaidd yn ddigon clir i alluogi gwneuthurwr cynllun i ystyried ystod o opsiynau twf a nodi gofyniad/darpariaeth yn y cynllun, ar gyfer cartrefi a swyddi, sy'n briodol ac yn gyflawnadwy? Os ydych yn anghytuno, nodwch pam a sut rydych chi'n credu y dylid gwella'r canllawiau.** |

**Cyflenwi a Chyflawni Tai (yn cynnwys taflwybr tai)**
Rhaid i'r cynllun datblygu bennu gofyniad tai y gellir ei gyflawni (PCC, paragraff 4.2.10). Er mwyn dangos ei fod yn cyflawni, mae polisi cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i'r cynllun datblygu gynnwys taflwybr tai. Er mwyn llunio'r taflwybr, bydd gofyn i'r awdurdod sy'n llunio'r cynllun gysylltu â'r diwydiant datblygu, drwy Ddatganiadau Tir Cyffredin (SoCG) i ddangos dealltwriaeth gadarn ynglŷn â chyflawni'r holl safleoedd tai yn y cynllun. Mae hyn yn berthnasol i bob cydran, gan ystyried amseroedd rhagarweiniol (megis cyflawni amodau), y gydberthynas rhwng safleoedd, cyfyngiadau posibl a gofynion seilwaith (costau/ffynonellau cyllid ac erbyn pryd) i ddarparu camau gwaith a chyfraddau cyflawni realistig. Mae'n ddarn allweddol o dystiolaeth wrth archwilio'r cynllun sy'n cynorthwyo'r ACLl i ddangos y gall y cynllun gael ei gyflawni a'i gefnogi gan seilwaith priodol. Bydd hefyd yn cynorthwyo gyda monitro cyflawni tai yn effeithiol, gan amlygu pryd y mae angen i awdurdod weithredu er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw dangyflawni.

| | |
|---|---|
| **C8** | **A oes digon o arweiniad ymarferol ar sut i baratoi taflwybr tai er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni tai? A yw diffiniadau'r cydrannau'n ddigon clir? Os ydych yn anghytuno, nodwch yr hyn y dylid ei newid a pham.** |

**Profion hyfywedd**
Mae polisi cenedlaethol yn datgan bod hyfywedd ariannol safleoedd yn cael ei asesu cyn iddynt gael eu cynnwys fel dyraniadau yn y cynllun datblygu (PCC, Paragraff 4.2.19). Mae'r Llawlyfr yn cynnwys y diffiniad canlynol o hyfywedd; 'Gellir ystyried bod datblygiad yn hyfyw os, ar ôl ystyried yr holl gostau hysbys, bydd gwerth y datblygiad yn creu gwarged sy'n ddigon i roi elw digonol i'r datblygwr a gwerth tir sy'n ddigonol i annog perchennog tir i werthu, o leiaf 20% uwchlaw Gwerth y Defnydd Presennol (EUV).' Mae'r Llawlyfr yn sefydlu hierarchaeth hyfywedd sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob safle ymgeisiol ddangos hyfywedd ariannol a'r gallu i gael ei gyflawni trwy arfarniad hyfywedd lefel uchel o ardaloedd y farchnad dai ymhob rhan o'r cynllun. Disgwylir hefyd i brofion manylach gael eu gwneud ar safleoedd sy'n allweddol i gyflawni'r cynllun. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylid cynnal arfarniadau pellach o hyfywedd yn y cyfnod gwneud cais, sy'n golygu mwy o dryloywder a sicrwydd i ddatblygwyr, yn lleihau risg ac yn osgoi oedi diangen. Mae'r Llawlyfr hefyd yn rhoi eglurhad o elfennau allweddol profion hyfywedd a phwysigrwydd ymgysylltu â phartneriaid allweddol i sicrhau bod modd cyflawni'r safleoedd yn y cynllun a strategaeth gyffredinol y cynllun.

| C9 | **A ydych yn cytuno â'r diffiniad o hyfywedd (paragraff 5.81) ac elfennau allweddol hyfywedd (tablau 24 a 25)? Os ydych yn anghytuno, nodwch beth sydd angen ei ddiwygio a pham.** |
|---|---|

| C10 | **A yw'r Llawlyfr yn gwahaniaethu'n glir rhwng gofynion hyfywedd profion ar lefel uchel a phrofion penodol i safle? Os nad ydych yn credu bod hyn yn ddigon clir, beth sydd angen ei newid yn eich barn chi a pham.** |
|---|---|

**Gweithredu a Chyflawni**

Er mwyn sicrhau bod hyder mewn system sy'n cael ei arwain gan gynllun, mae'n hanfodol bod cynlluniau'n gallu cael eu cyflawni gyda'r seilwaith priodol, fel y nodir yn y cynllun. Mae nodi'r hyn sydd ei angen yn gynnar yn y broses yn golygu bod modd ystyried cost seilwaith mewn safleoedd sy'n cael eu hyrwyddo i gael eu cynnwys yn y cynllun. Darperir canllawiau newydd yn y Llawlyfr ar ddarparu seilwaith, sy'n nodi'r lefel a'r math o wybodaeth sydd ei hangen i gefnogi gweithredu a chyflawni safleoedd yn y cynllun. Mae ystyriaeth lawnach o'r gofynion seilwaith, ymgysylltu â darparwyr seilwaith, nodi ffynonellau cyllid a chamau ac amseru'r gwaith cyflawni yn allweddol i ddeall hyfywedd a gofynion polisi, a dangos hefyd y gall y cynllun gyflawni safleoedd allweddol. Mae'r Llawlyfr yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r wybodaeth hon gael ei chynnwys mewn atodiad gweithredu a chyflawni.

| C11 | **A yw'r Llawlyfr yn rhoi digon o arweiniad i alluogi paratoi cynllun seilwaith ac i ddangos sut i ymgorffori elfennau craidd y cynllun seilwaith yn y cynllun datblygu? Os ydych yn anghytuno, nodwch beth rydych chi'n meddwl sydd angen ei ddiwygio a pham.** |
|---|---|

**Pennod 8 Monitro, Adolygu a Diwygio**

Ym Mhennod 8, ceir canllawiau ymarferol manwl ar baratoi fframwaith monitro mwy pendant ei ffocws ac effeithiol er mwyn llywio'r gwaith o baratoi'r Adroddiad Monitro Blynyddol (AMR). Bydd sicrhau bod gan y cynllun fframwaith monitro cadarn ac effeithiol yn galluogi'r cynllun i ymateb yn gyflym i unrhyw beth sydd heb ei gyflawni neu newidiadau annisgwyl yn ystod amserlen y cynllun. Mae rhestr o ddangosyddion allweddol wedi'i chynnwys yn y canllawiau i sicrhau bod y prif faterion yn cael eu monitro'n ddigonol ac yn gyson mewn cynlluniau datblygu mabwysiedig.

| C12 | **Ydych chi'n cytuno â'r rhestr o ddangosyddion i'w cynnwys yn y fframwaith monitro (tabl 29)? Os ydych yn anghytuno, nodwch pa newidiadau y dylid eu gwneud a pham eu bod yn angenrheidiol yn eich barn chi.** |
|---|---|

**Adolygiad Ffurf Fer**

Mae'r Llawlyfr yn cynnwys canllawiau ar y weithdrefn Adolygu Ffurf Fer. Mae'r dull hwn yn osgoi gorfod cynnal y weithdrefn adolygu lawn drwy hepgor y cyfnod strategaeth a ffefrir. Fodd bynnag, mae hyn yn seiliedig ar y dybiaeth bod y strategaeth gyffredinol, dosbarthiad twf a graddfa cartrefi/swyddi a phob datblygiad/seilwaith cysylltiedig yn parhau i fod yn gyson â'r cynllun sydd wedi'i fabwysiadu. Mae hefyd yn tybio bod yr 'anghenion' sy'n codi dros gyfnod y cynllun yn aros yn gyson hefyd. Yn y pen draw, ystyrir mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y byddai'r dull hwn yn gymwys.

| | |
|---|---|
| **C13** | **A yw'r canllawiau ar y weithdrefn Adolygu Ffurf Fer yn ddigon clir a defnyddiol? Os ydych yn anghytuno, nodwch beth y gellid ei ddiwygio a pham.** |

**Cynlluniau Datblygu Strategol**
Cafodd y gallu i baratoi Cynllun Datblygu Strategol ei gyflwyno yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015, ac roedd wedi ei dargedu'n benodol i ymdrin yn fwy effeithiol â materion sy'n croesi ffiniau awdurdodau lleol. Ni ddylai Cynlluniau Datblygu Strategol fod yn gyfuniad o CDLlau presennol yn unig. Yn hytrach, dylid manteisio ar y cyfle i ystyried materion gofodol ehangach drwy gysyniadau cynllunio ehangach. Mae'r Llawlyfr yn nodi cyfres o gysyniadau gofodol posibl. Nid yw'n rhestr hollgynhwysol ond bydd o gymorth i baratoi Cynllun Datblygu Strategol, yn ogystal â graddfa a chynnwys y cynllun er mwyn iddo fod yn elfen effeithiol o'r cynllun datblygu. Rhoddir eglurhad hefyd ynglŷn â chynnwys y Rheoliadau sy’n angenrheidiol i baratoi Cynllun Datblygu Strategol. Mae'r canllawiau'n nodi y dylai Cynllun Datblygu Strategol ganolbwyntio’n gyfan gwbl ar faterion, pynciau neu leoedd sy'n allweddol i gyflawni materion ehangach na rhai lleol. Mae hefyd yn rhoi arweiniad ynglŷn â phryd a sut i baratoi 'CDLl Cryno' ar ôl mabwysiadu Cynllun Datblygu Strategol.

| | |
|---|---|
| **C14** | **A ydych yn cytuno â graddfa a chynnwys y materion sydd i'w cynnwys mewn Cynllun Datblygu Strategol? Os na, beth ydych chi'n anghytuno ag ef a pham?** |

| | |
|---|---|
| **C15** | **A oes arweiniad clir a digonol i alluogi paratoi Cynllun Datblygu Strategol? Os ydych yn anghytuno, beth ydych chi'n meddwl y dylid ei ddiwygio a pham?** |

| | |
|---|---|
| **C16** | **<u>Unrhyw sylwadau eraill</u>**<br>**Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol.  Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw yn benodol, manteisiwch ar y cyfle hwn i sôn amdanynt.** |